# Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL)

**'Hysbysiad i OPTIO ALLAN o Gynilo ar gyfer Pensiwn'**

## Manylion Personol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl:** | | **Enw Llawn:** | |
| **Cyfeiriad Cartref:** | | | |
| | | | |
| | | **Cod Post:** | |
| **Rhif Y.G.:** | | **Dyddiad Geni:** | |
| **Cyflogwr:** | | | |
| **Cyfeirnod Cyflogaeth:** | | **Rhif y Swydd:** | |
| **Teitl y Swydd:** | | | |

## Dewis Iaith

(✓ y blwch priodol i nodi eich etholiad)

Fel aelod o'r CPLlL, hoffwm dderbyn **HOLL** ohebiaeth a ddaw yn y dyfodol yn:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **GYMRAEG** | | **SAESNEG** | | **DDWYIEITHOG** (Ddiofyn) | |

## Datganiad y Gweithiwr

**DYCHWELIR Y FFURFLEN HON AT EICH CYFLOGWR**

NI ddylech lofnodi na dyddio'r ffurflen hon OND **ar ôl i chi gychwyn eich cyflogaeth** yn y swydd rydych yn dymuno optio allan o CPLlL mewn perthynas â hi. Os byddwch yn ei llofnodi a'i dyddio cyn eich dyddiad cychwyn, bydd y ffurflen hon yn **ANNILYS**. **Os oes gennych fwy nag un swydd gyda'ch cyflogwr, bydd angen i chi lenwi ffurflen Optio Allan ar gyfer pob swydd NAD YDYCH yn dymuno ei chysylltu â CPLlL.** Rwy'n datgan, drwy optio allan o CPLlL, fy mod yn ymwybodol fy mod yn ymwrthod â'r cyfle i fod yn rhan o CPLlL a fyddai'n darparu pecyn gwarantedig o fuddion sy'n cael eu cefnogi dan y gyfraith, gan gynnwys:

- **pensiwn blynyddol sicr** - sy'n daladwy am weddill eich oes ac sy'n cynyddu yn ôl costau byw.
- **opsiwn arian parod di-dreth** - gallwch gyfnewid rhan o'ch pensiwn am rywfaint o arian parod di-dreth.
- **opsiwn i ymddeol yn gynnar yn wirfoddol** - o 55 oed.
- **sicrwydd afiechyd difrifol** - gellir talu eich buddion am weddill eich oes ynghyd ag ychwanegiad posibl.
- **sicrwydd dileu swydd** - os ydych yn 55 oed neu'n hŷn, bydd eich buddion heb eu lleihau yn cael eu talu'n syth.
- **sicrwydd bywyd ychwanegol** - lwmp swm cyfwerth 3 gwaith eich tâl terfynol, os byddwch yn marw yn y swydd.
- **buddion goroeswr** - pensiwn ar gyfer eich ngŵr, gwraig, partner sifil, partner cymwys sy'n cyd-fyw â chi, a / neu unrhyw blant cymwys a allai fod gennych.

Rwyf wedi darllen yr uchod â'r nodiadau cyfarwyddyd, ac rwy'n deall bod y dewisiadau rwy'n eu gwneud nawr yn bwysig wrth gynllunio ar gyfer fy ymddeoliad. Rwy'n deall, os byddaf yn optio allan, y gallaf **golli'r hawl i dderbyn cyfraniadau pensiwn gan fy nghyflogwr,** ac y gallai fod gennyf incwm is pan fyddaf yn ymddeol. **Rwy'n cadarnhau fy mod yn dymuno optio allan o gynilo ar gyfer pensiwn yn y swydd rwyf wedi'i nodi ar y ffurflen hon.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod:** | | **Dyddiad:** | |

## DEFNYDDY Y CYFLOGWR YN UNIG:

✓ y blwch os yw Datganiad y Gweithiwr wedi cael eu gweithredu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod y Swyddog:** | | **Dyddiad:** | |

## Nodiadau Cyfarwyddyd

1) Gallwch ddewis haneru eich cyfradd gyfrannu arferol, er mwyn cronni hanner lefel y pensiwn yn y cynllun yn ystod y cyfnod hwn, a allai fod yn well dewis na pheidio â bod yn rhan o'r cynllun o gwbl. Gelwir hyn yn Opsiwn 50/50. Er mwyn gwneud hynny, cysylltwch â'ch Cyflogwr i ofyn am y ffurflen etholiad briodol.

2) Ni allwch lofnodi na dyddio'r ffurflen optio allan hon ond ar ôl i chi gychwyn eich cyflogaeth yn y swydd rydych yn dymuno optio allan o aelodaeth o CPLlL mewn perthynas â hi.

3) Ni allwch lofnodi na dyddio'r ffurflen cyn hynny gan y bydd yn cael ei thrin yn ffurflen optio allan annilys.

4) Ni all eich Cyflogwr ofyn i chi optio allan na'ch gorfodi i optio allan. Os bydd rhywun yn gofyn i chi neu'n eich gorfodi i optio allan, gallwch ddweud wrth y Rheoleiddiwr Pensiynau - gweler www.thepensionregulator.gov.uk

5) Os oes gennych swydd arall gyda Chyflogwr arall, gall y Cyflogwr hwnnw hefyd eich rhoi i mewn i gynllun i gynilo ar gyfer pensiwn, nawr neu yn y dyfodol. Mae'r ffurflen optio allan hon yn eich optio allan o gynilo ar gyfer pensiwn CPLlL mewn perthynas â'r Cyflogwr a'r swyddi rydych wedi'u henwi ar y ffurflen hon yn unig. Rhaid llenwi ffurflen optio allan ar wahân a'i rhoi i unrhyw Gyflogwr arall rydych yn gweithio iddo os ydych yn dymuno optio allan o gynilo ar gyfer pensiwn gyda'r Cyflogwr hwnnw hefyd.

   Bydd angen i chi gael y ffurflen optio allan ar gyfer cyflogaeth gyda'r Cyflogwr hwnnw yn uniongyrchol gan **Gronfa Bensiwn Dyfed**.

6) Os byddwch yn optio allan o CPLlL cyn cwblhau 2 mlynedd o aelodaeth, byddwch yn cael eich trin fel pe na baech erioed wedi bod yn aelod a bydd unrhyw gyfraniadau a dynnwyd o'ch cyflog yn cael eu had-dalu i chi. Os byddwch yn optio allan ar ôl 2 mlynedd, bydd gennych hawl i fuddion pensiwn gohiriedig yn CPLlL a fydd fel arfer, oni bai eich bod yn trosglwyddo'r buddion i gynllun pensiwn arall, yn daladwy o'ch Oedran Pensiwn Arferol.

7) Os byddwch yn penderfynu optio allan o aelodaeth o CPLlL ac yn newid eich meddwl yn ddiweddarach, byddwch yn gallu ailymuno â'r cynllun cyhyd â'ch bod dan 75 oed a'ch bod yn parhau i fod mewn cyflogaeth sy'n eich gwneud yn gymwys i fod yn aelod o'r cynllun. Bydd angen i chi ysgrifennu at eich cyflogwr os byddwch yn dymuno optio'n ôl i mewn i'r cynllun.

8) Fodd bynnag, os byddwch yn dewis ymeithrio o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - ar **11 Ebrill 2015** neu ar ôl hynny – mewn perthynas â chyflogaeth sydd â hawl i fuddiant gohiriedig (ac nad oes gennych gyflogaeth gydredol lle'r ydych yn dal i fod yn aelod o'r cynllun), NI fydd gennych hawl, os byddwch yn ailymuno â'r cynllun yn ddiweddarach, i gyfuno'r buddion gohiriedig hynny ag unrhyw gyfnod o aelodaeth yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn y dyfodol.

9) Os byddwch yn aros wedi optio allan, bydd eich Cyflogwr fel arfer yn eich rhoi'n ôl i mewn i CPLlL yn awtomatig tua **3 blynedd** ar ôl y dyddiad pan mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â darpariaethau Deddf Pensiynau 2008 sy'n ymwneud â chofrestru awtomatig. Fodd bynnag, bydd gennych hawl i optio allan o aelodaeth o'r cynllun eto bryd hynny.

10) Os bydd eich Cyflogwr yn newid, bydd eich Cyflogwr newydd fel arfer yn eich rhoi'n ôl i mewn i gynllun i gynilo ar gyfer pensiwn yn syth.

11) **Dylid dychwelyd y ffurflen optio allan wedi'i llenwi at eich Cyflogwr.**

12) Cyngor Sir Caerfyrddin yw gweinyddwr Cronfa Bensiwn Dyfed a defnyddiwn eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaethau gweinyddu pensiwn i chi. Am ragor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio'ch data, pwy rydym yn ei rhannu â, a pha hawliau sydd gennych chi mewn perthynas â'ch gwybodaeth, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd ar wefan Cronfa Bensiwn: **www.cronfabensiwndyfed.org.uk**

## Dychwelir y ffurflen hon at eich Cyflogwr